

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol
a Deddfwriaethol

Adroddiad ar y Bil Archwilio Cyhoeddus
(Cymru)

Tachwedd 2012



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8019
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: PwyllgorMCD@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol
a Deddfwriaethol

Adroddiad ar y Bil Archwilio Cyhoeddus
(Cymru)

Tachwedd 2012



Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Sefydlwyd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar 15 Mehefin 2011. Ei gylch gwaith yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol ac arfer ei bwerau fel y'u nodir yn y Rheolau Sefydlog. Mae hyn yn cynnwys ystyried unrhyw faterion deddfwriaethol cyffredinol eu natur sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru, a chyflwyno adroddiadau arnynt.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



David Melding (Cadeirydd)

Dirprwy Lywydd
Ceidwadwyr Cymreig
Canol De Cymru



Suzy Davies

Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



Julie James

Llafur Cymru
Gorllewin Abertawe



Eluned Parrott

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canol De Cymru



Simon Thomas

Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cynnwys

1. Cyflwyniad	5
Cylch gwaith y Pwyllgor	5
2. Cefndir.....	6
3. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth	8
Gorchmynion.....	8
<i>Adran 19(7) - Darparu gwasanaethau</i>	<i>8</i>
<i>Ein barn</i>	<i>8</i>
<i>Adran 34 - Darpariaethau trosiannol, atodol ac arbed etc</i>	<i>8</i>
<i>Ein barn</i>	<i>8</i>
<i>Adran 36 - Cychwyn</i>	<i>9</i>
<i>Ein barn</i>	<i>9</i>
Rheoliadau	9
<i>Ein barn</i>	<i>9</i>
4. Cymhwysedd Deddfwriaethol	10
<i>Materion i'w hystyried</i>	<i>10</i>
<i>Ein barn</i>	<i>10</i>
Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig	11

1. Cyflwyniad

1. Ar 9 Gorffennaf 2012, cyflwynodd Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ, y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) ("y Bil") a Memorandwm Esboniadol i gyd-fynd ag ef.¹
2. Cyfeiriodd Pwyllgor Busnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru y Bil at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i'w ystyried ar 19 Mehefin 2012, gan nodi y dylid cwblhau ystyriaeth Cyfnod 1 y Bil erbyn 23 Tachwedd 2012.
3. Ystyriodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Bil yn ei gyfarfod ar 8 Hydref 2012.

Cylch gwaith y Pwyllgor

4. Cylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ("y Pwyllgor") yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol a nodir yn Rheol Sefydlog 21², ac ystyried unrhyw fater cyfansoddiadol neu lywodraethol arall sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â'r cymhwysedd hwnnw.
5. O fewn y cylch gwaith hwn, bydd y Pwyllgor yn ystyried pwysigrwydd gwleidyddol a chyfreithiol yr holl offerynnau statudol neu offerynnau statudol drafft a wneir gan Weinidogion Cymru, yn ogystal ag agweddau technegol ar yr offerynnau hynny. Mae'r Pwyllgor yn adrodd ynghylch a ddylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i'r offerynnau yn unol ag ystod o seiliau a restrir yn Rheol Sefydlog 21.
6. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried pa mor briodol yw darpariaethau ym Miliâu'r Cynulliad ac ym Miliâu Senedd y Deyrnas Unedig sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol, ac yn adrodd ar hynny.

¹ Llywodraeth Cymru, *Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)*, Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol, Gorffennaf 2012

² Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru*, Hydref 2012
http://www.cynulliadcymru.org/clean_sos.pdf

2. Cefndir

7. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn nodi mai nod y Bil yw:

“...cryfhau a gwella'r trefniadau atebolrwydd a llywodraethu sy'n ymwneud ag Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) a gwarchod annibyniaeth a gwrthrychedd ACC ar yr un pryd.”³

8. Mae hefyd yn nodi y bydd y Bil yn:

“...gwella goruchwyliaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru dros ACC, ac yn cryfhau atebolrwydd a thryloywder y Swyddfa honno. Bydd y Bil, os daw'n Ddeddf, yn sefydlu SAC newydd, a fydd yn gyfrifol am y swyddogaethau corfforaethol a freinir yn ACC ar hyn o bryd. Bydd dyletswydd arni hefyd i'w fonitro, a bydd ganddi'r pŵer i'w gynghori. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaethau a fydd yn golygu mai ACC fydd yr archwilydd statudol ar gyfer cyrff llywodraeth leol yng Nghymru.”⁴

9. O ran cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol i wneud y Bil, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

“Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud darpariaeth mewn perthynas ag archwilio, astudio, rheoleiddio ac arolygu awdurdodau cyhoeddus sy'n destun archwilio ac mewn perthynas ag Archwilydd Cyffredinol Cymru yn rhinwedd adran 108 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006), a Rhan 1 (Pennawd 14 (Gweinyddiaeth Gyhoeddus)) o Atodlen 7 iddi.

Mewnosododd Adran 27 o Ddeddf Cyfrifoldeb am Gyllidebau ac Archwilio Cenedlaethol 2011, ac Atodlen 6 iddi, y pwnc Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Pennawd hwnnw yn Atodlen 7 i Ddeddf 2006. Gwnaeth newidiadau amrywiol hefyd i'r cyfyngiadau cyffredinol yn Rhan 2 o'r Atodlen honno (gan gynnwys drwy wneud rhai eithriadau i'r cyfyngiadau hynny) er mwyn rhoi'r pŵer i'r Cynulliad wneud darpariaeth yn un o

³ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 1

⁴ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 2

Ddeddfau'r Cynulliad sy'n gysylltiedig â goruchwyllo ACC a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC)."⁵

⁵ Y Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3 a 4

3. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

Gorchmynion

10. Mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud gorchmynion fel y'i disgrifir isod.

Adran 19(7) – Darparu gwasanaethau

11. O dan yr adran hon, gellir gwneud trefniadau i dderbyn gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol y gallai fod eu hangen ar Swyddfa Archwilio Cymru neu Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyflawni eu swyddogaethau priodol. Gellir gwneud y trefniadau hyn, ymysg pethau eraill, gyda chorff cyfrifwyr Ewropeaidd cymeradwy. Diffinnir “corff cyfrifwyr Ewropeaidd cymeradwy” fel corff o gyfrifwyr sydd yn sefydledig yn y Deyrnas Unedig neu Wladwriaeth AEE arall ac sydd, am y tro wedi ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.

Ein barn

12. Mae'r rhain yn swyddogaethau gweinyddol ac ystyrir bod y weithdrefn negyddol, fel y darperir ar ei chyfer yn adran 31(3) o'r Bil, yn briodol.

Adran 34 – Darpariaethau trosiannol, atodol ac arbed etc

13. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth atodol, drosiannol, ddarfodol, ganlyniadol, arbed, gysylltiedig neu ddarpariaeth arall sy'n briodol yn eu barn hwy mewn cysylltiad â'r Bil neu i roi effaith lawn i'r Bil.

14. Mae'r pŵer yn cynnwys diwygio, diddymu a dirymu unrhyw ddeddfiad (a ddiffinnir yn adran 33 fel unrhyw ddeddfiad gan gynnwys y Bil, unrhyw Ddeddf arall y Cynulliad neu Fesur y Cynulliad neu is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan Ddeddf y Cynulliad, Mesur y Cynulliad neu fel arall).

Ein barn

15. O ystyried natur y pŵer, ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol, fel y darperir ar ei chyfer yn adran 31(2) o'r Bil, yn briodol.

Adran 36 – Cychwyn

16. Heblaw am adrannau 31, 36 a 37, cychwynnir y Bil drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru ac ni ragnodir gweithdrefn ar gyfer gwneud gorchymyn cychwyn.

Ein barn

17. Yr arfer safonol yw peidio â rhagnodi gweithdrefn ar gyfer gwneud gorchymynion cychwyn. Gan hynny, rydym yn fodlon â'r ffaith na wneir hyn yn y Bil.

Rheoliadau

18. Nid yw'r Bil yn cynnwys unrhyw bwerau i wneud rheoliadau.

19. Fodd bynnag, mae paragraff 41 o Atodlen 4 i'r Bil yn gwneud diwygiad technegol i adran 39 (rheoliadau cyfrifon ac archwiliadau) o *Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004*. Mae'r diwygiad hwn, ymysg pethau eraill, yn rhoi'r pŵer gwneud rheoliadau *sy'n bodoli eisioes* (sy'n ymwneud â chadw cyfrifon ac ati gan awdurdodau lleol) ar Weinidogion Cymru yn hytrach na'r Cynulliad. Gwneir diwygiad canlyniadol i adran 39(5) (costau yr eir iddynt mewn cysylltiad â throstedd o dan y rheoliadau), sy'n disodli'r cyfeiriad presennol at "an auditor" gan roi cyfeiriad at "Auditor General for Wales or the Wales Audit Office" yn ei le.

Ein barn

20. Nid oes gennym unrhyw sylw i'w wneud am y diwygiad technegol i adran 39 o *Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004*.

4. Cymhwysedd Deddfwriaethol

Materion i'w hystyried

21. Ysgrifennom at y Gweinidog ar 8 Hydref 2012 yn gofyn am gadarnhad nad yw hi'n ymwybodol o unrhyw bryderon neu faterion yn ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaethau yn y Bil.

22. Yn ei hymateb ar 25 Hydref 2012, nododd y Gweinidog:

“...as I mentioned in my evidence to the Public Accounts Committee on 24 September, there is one issue which relates to whether the Assembly has legislative competence to make provision to change the audit arrangements for Chief Constables in Wales. We are in ongoing discussions with the Wales Office regarding this matter.”

Ein barn

23. Rydym yn nodi sylwadau'r Gweinidog.

24. Rydym yn argymhell bod y Gweinidog yn esbonio, yn ystod y ddadl Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil, ganlyniad ei thrafodaethau gyda Swyddfa Cymru ynghylch a oes gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â threfniadau archwilio Prif Gwnstabiliaid Cymru.

Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn www.cynulliadcymru.org

Papur	Cyfeirnod
Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)	CLA(4)-20-12(p1)
Memorandwm Esboniadol	CLA(4)-20-12(p2)
Adroddiad y Cynghorwyr Cyfreithiol	CLA(4)-20-12(p3)
Llythyr gan y Cadeirydd at Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ, 8 Hydref 2012	CLA(4)-23-12(p4)
Llythyr gan Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ, at y Cadeirydd, 25 Hydref 2012	CLA(4)-23-12(p5)